# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyngor Cymuned Llandderfel

Nos Fawrth, Hydref 1af 2024 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Mynach.

Presennol: Dewi Pritchard (cadeirydd), Gwenda Evans, Eilir Rowlands, Eifion Davies, Gary Thomas, Gwenda Morris, Gwynedd Jones, Iolo Evans a'r Cyng. Elwyn Edwards.a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Bethan Thomas, Rita Jones a Alwyn Jones.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Medi 3ydd 2024) **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **Dim.**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
b) Mynwentydd

## iv) Gohebiaeth

a) Cynlluniau Ffermydd Gwynt.
i) Fferm Wynt Foel Fach - datblygiad ynni adnewyddadwy newydd arfaethedig.

b) Cyngor Gwynedd.
i) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd
ii) Adolygiad Dosbarthau a Mannau Pleidleisio.

c) Amrywiol.
i) Groundwork Gogledd Cymru – grantiau cymunedol.
ii) Llywodraeth Cymru – Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 – cyhoeddi papur ymgynghori.

## v) Ceisiadau Cynllunio.

i) C24/0740/04/DT – Estyniadau a newidiadau arfaethedig. Braich Ddu, Glanrafon.
**Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol.**

## vi) Materion Ariannol.

a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau) - **cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Medi a chafwyd yn gywir.**
b) **Cytunwyd i dalu -** Cyflog a chostau'r clerc (Gorff-Medi), TWE, bylbiau cenin pedr, hadau a ph etrol (ad-daliad i'r clerc)

vii) Materion lleol.
**a) Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**
**b) Diffibriliwyr– trafodwyd y posibilrwydd na fyddai'r padiau a'r batris yn cael eu cyflenwi am ddim o hyn ymlaen. Cytunwyd i wneud ymholiadau pellach ac yna trafod y posibilrwydd o ychwanegu arian i'r gyllideb os bydd angen.**
**c) Lloches bws newydd i Lanfor – yn dilyn cais arall gan un o drigolion y pentref cytunwyd i ail edrych ar gael lloches ychwanegol ar yr A494.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH TACHWEDD 5ED YN NEUADD SARNAU.**